Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi
Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

10 Hydref 2022

Annwyl bawb,

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Trefniadau ariannu ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Hoffwn ddiolch i bob un ohonoch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 22 Mehefin i roi tystiolaeth i helpu i lywio ein hymchwiliad i drefniadau ariannu ar ôl ymadael â'r UE. Mae'n bleser gennyf roi gwybod bod y Pwyllgor bellach wedi cyhoeddi ei adroddiad.

Ers ymadael â'r UE, mae Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cyllid wedi rhannu diddordeb yn y paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r UE. Fel y gwyddoch, Cymru derbyniodd y swm mwyaf o gyllid yr UE o gymharu â'i phoblogaeth o blith holl wledydd y DU, ac roedd ein hymchwiliad yn gyfle cychwynnol i archwilio'n fanwl y trefniadau ariannu newydd a lefel y cyllid y disgwylir i Gymru ei gael.

Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sicrhau bod yr arian sy'n dod i Gymru yn cael ei wario ar sicrhau'r canlyniadau cywir i Gymru. Gyda hynny mewn golwg, mae ein hadroddiad yn gwneud argymhellion i'r ddwy Lywodraeth, ac er nad yw Gweinidogion y DU yn uniongyrchol atebol i'r Senedd, rwyf wedi ysgrifennu at

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ei annog i ystyried ein hargymhellion a chyflwyno ymateb i'r Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Rhagfyr 2022, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich ymateb i'n hadroddiad ddod i law erbyn 21 Tachwedd 2022.

Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae'r rhain yn drefniadau ariannu newydd sy'n hollbwysig i Gymru. Gobeithiwn y bydd cael ymatebion gan y ddwy Lywodraeth cyn y ddadl yn caniatáu i Aelodau o'r Senedd graffu ar y cronfeydd hyn ar sail gwybodaeth glir, gywir a diamwys.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.